‘A yw Prydain yn Decach?’ Ffeithiau a chanfyddiadau allweddol: **pobl anabl**

‘A yw Prydain yn Decach?’ (2015) yw adolygiad pum-mlynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym Mhrydain. Mae’r daflen ffeithiau hon yn dirnad rhai o’n canfyddiadau allweddol ni o safbwynt anabledd.

Mae anabledd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Deddf Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; diogelu unigolion rhag triniaeth annheg; ac yn hyrwyddo cymdeithas decach a mwy cyfartal. Mae’n berthnasol i bobl anabl mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cyflogaeth, addysg a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chofnodion Cenedlaethol yr Alban yn dangos fod yna 10.6 miliwn o bobl anabl (oedolion a phlant) yn byw ym Mhrydain yn 2011.

Mae pobl anabl yn dioddef lefelau uwch o fwlio a gwaharddiad mewn ysgolion ac mae ganddynt lefelau is o gyrhaeddiad.

Ym Mhrydain, roedd **12.7% o bobl ifanc** â Salwch neu Anabledd Cyfyngol hir sefydlog (LLID) wedi cofnodi nad oeddent mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn 2013, o gymharu â **6.8%** o bobl ifanc nad ydynt yn LLID.

Ar draws Prydain, roedd gan blant ysgol uwchradd sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) lefel is o gyrhaeddiad academaidd na’r rhai heb AAA yn 2013.

Yn Lloegr, dim ond 23.4% o blant ag AAA wnaeth gyflawni o leiaf bump TGAU A*-C, o gymharu â 70.4% o blant heb AAA.

Yng Nghymru, dim ond 16.8% o blant ag AAA wnaeth gyflawni o leiaf bum gradd A*-C TGAU, o gymharu â 63.2% o blant heb AAA.

Yn yr Alban, roedd gan ddisgyblion ag Anghenion Cymorth Ychwanegol (ACY) sgôr is ar gyfartaledd tariff (136 pwynt) o gymharu â disgyblion heb ACY (203 pwynt) yn 2012/13.

Ym Mhrydain, roedd **58%** o blant a phobl ifanc gydag anabledd corfforol, **62%** o blant a phobl ifanc gydag anabledd dysgu, a **67%** o blant a phobl gydag awtistiaeth / Asperger wedi adrodd cael eu bwlio yn 2013, o gymharu â **40%** o’r plant a phobl ifanc heb anabledd.

Mewn plant sydd ag AAA yng Nghymru a Lloegr, a phlant ag ASN yn yr Alban, roedd cyfraddau gwahardd yn uwch nag mewn plant heb anabledd yn 2012/13.

Yn Lloegr, roedd gan blant ag AAA gyfradd gwahardd o 116.2 fesul 1,000 o ddisgyblion, o gymharu â 17.0 fesul 1,000 o ddisgyblion heb AAA. Yng Nghymru, roedd gan blant ag AAA gyfradd gwahardd o 96.5 fesul 1,000 o ddisgyblion, o gymharu â 20.1 fesul 1,000 o ddisgyblion heb AAA. Yn yr Alban, roedd gan blant ag ASN gyfradd gwahardd o 89.5 i bob 1,000, o gymharu â 20.4 fesul 1,000 o blant heb unrhyw ASN wedi’i nodi.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Canran y bobl anabl ym Mhrydain heb unrhyw gymwysterau yn 2013 oedd 20.6%, tra bod y ganran o bobl nad ydynt yn anabl sydd heb unrhyw gymwysterau yn 7.2%.

Roedd pobl anabl yn llai tebygol o fod â chymhwyster lefel gradd na phobl heb anabledd (**16.4%** o gymharu â **31.1%**) yn 2013.

Mae pobl anabl yn profi cyfraddau cyflogaeth a thâl is.

Ym Mhrydain, roedd cyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn **47.5%** a **78.3%** yn y drefn honno, yn 2013.

Ym Mhrydain, enillion cyfartalog pobl anabl oedd **£9.70 yr awr yn 2013**, ac roedd hyn £1.00 yr awr yn llai nag ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl (£10.60 yr awr).

Gall lleihad mewn rhagolygon cyflogaeth gael ei gymhlethu gan y newidiadau i fudd-dal tai, sy'n effeithio'n arbennig ar bobl anabl

Nododd asesiad effaith cydraddoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau ar reoliad tan-ddeiliadaeth (y dreth ystafell wely) mewn perthynas â budd-dal, y byddai cyfran uwch o bobl anabl yn cael eu heffeithio na'r rhai nad ydynt yn anabl. O'i gyfuno â diffyg llety cymwysadwy a fforddiadwy, gallai pobl anabl symud i eiddo llai yn sgil y rheoliad dan feddiannaeth (gallai hyn, yn ei dro, olygu bod pobl yn symud i eiddo sy ddim yn addas i'w hanghenion), neu wynebu ôl-ddyledion rhent neu gael eu troi allan.

Dangosodd cofnodion 2014 y gallai hyd at **300,000 o bobl anabl** fod yn aros am dai ym Mhrydain.

Mae pobl anabl yn cael canlyniadau iechyd gwaeth.

Ledled Prydain, mae pobl anabl yn fwy tebygol o gofnodi iechyd gwael. **Yn Lloegr**, adroddodd **0.7%** o bobl heb anabledd iechyd gwael yn 2012, o gymharu â 28.7% o bobl gydag anabledd. **Yng Nghymru**, yn ystod yr un cyfnod, adroddodd 0.2% o bobl, nad ydynt yn anabl, iechyd gwael yn 2012, o gymharu â 16.6% o bobl anabl. **Yn yr Alban**, adroddodd 0.4% o bobl, nad ydynt yn anabl, iechyd gwael, o gymharu â 26.4% o bobl anabl.

Ledled Prydain, mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod mewn perygl o iechyd meddyliol gwael. Yn Lloegr, 34.9% o bobl anabl oedd mewn perygl o iechyd meddyliol gwael, o gymharu â 9.9% o bobl nad ydynt yn anabl. Yng Nghymru, 52.2% o bobl anabl oedd mewn perygl, o'i gymharu â 19.6% o bobl nad ydynt yn anabl. Yn yr Alban, 26.9% o bobl anabl oedd mewn perygl, o gymharu â 10.0% o bobl nad ydynt yn anabl.

Yn Lloegr, yn 2012, oedran cyfartalog marwolaeth pobl yr oedd eu tystysgrif marwolaeth yn nodi fod ganddynt anabledd dysgu, oedd **58**. Mae cymharu hyn gydag oedran canolrif o **82** ar draws y wlad yn dangos gostyngiad mewn disgwyliad oes o tua 24 mlynedd.

Teimlai pobl anabl yn fwy anniogel ac maent yn adrodd am lefelau uwch o droseddau casineb na phobl nad ydynt yn anabl

Yng Nghymru a Lloegr, roedd y canran o ymatebwyr arolwg troseddau a ddywedodd eu bod yn teimlo'n anniogel iawn neu'n anniogel ar eu pen eu hunain yn y cartref neu / ac yn eu hardal leol yn ystod y dydd neu ar ôl iddi dywyllu, yn uwch ar gyfer pobl anabl (45% yn Lloegr, 36.0% yng Nghymru), o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl (27.9% yn Lloegr, 26.0% yng Nghymru) yn 2012/13.

Yn yr Alban, yn ystod yr un cyfnod, roedd canran y bobl anabl a deimlai'n anniogel ar eu pen eu hunain yn y cartref yn y nos neu'n cerdded ar eu pen eu hunain / yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu yn 42.4%, o gymharu â 24.2% o bobl nad ydynt yn anabl.

Y nifer o ddigwyddiadau trosedd casineb anabledd a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2013/14 oedd 1,985 yng Nghymru a Lloegr, a 154 yn yr Alban.

Y nifer o euogfarnau ar gyfer troseddau casineb yn 2013/14 oedd 470 yng Nghymru a Lloegr a 41 yn yr Alban.



Yn Lloegr yn 2012/13 roedd canran ymatebwyr arolwg trosedd anabledd a soniodd eu bod wedi dioddef trosedd casineb yn ddwywaith yn fwy nag i ymatebwyr nad ydyn nhw'n anabl (0.6% o'i gymharu â 0.3%). Nid oes data cywerth ar gael i'r Alban

Mae llawer o bobl anabl yn weithgar yn wleidyddol er bod rhai yn credu eu bod yn cael llai o ddylanwad na phobl nad ydynt yn anabl

Yn Lloegr, dywedodd 31.7% o bobl anabl eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol, megis lobïo neu brotestio yn 2013/14. Defnyddiwyd mesur gwahanol o weithgaredd gwleidyddol yn yr Alban. **Yn yr Alban** 61.2% o bobl anabl yn 2013 oedd wedi bod yn weithgar yn wleidyddol yn yr ychydig o flynyddoedd diwethaf. Nid oedd data ar gael ar gyfer Cymru.



Roedd pobl anabl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn llai tebygol na phobl nad ydynt yn anabl yn 2013/14, i deimlo y gallent ddylanwadu ar eu hardal leol. **Yn Lloegr**, roedd 30.1% o bobl anabl, o gymharu â 35.5% o'r rhai nad ydynt yn anabl yn teimlo hyn. **Yn yr Alban**, roedd 18.8% a 22.9% (yn y drefn honno) yn teimlo hyn yn 2013. **Yng Nghymru,** 20.9% a 25.2%, wedi teimlo hyn yn ystod 2013/14. Nid yw'n bosib cymharu data ymysg y gwledydd.